

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN GLASDIR, LLANRWST NOS LUN 23ain, Medi 2019

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Anwen Jones, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Dylan Jones,

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 27ain, Gorffennaf, 2019.

Materion yn codi o'r cofnodion

EGIN WEN, LLANDDOGED

Cadarnhawyd fod cyfarfod wedi cael ei gynnal ym Maes parcio Gegin Wen gyda Mr Len Jackson o'r adran Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Sir Conwy gyda'r Clerc, Cyng Nerys Dobson a Cyng Austin Roberts i drafod cael golau i'r maes parcio.

Cysylltodd Mr Len Jackson gyda'r Clerc gyda phris o £305 i osod y golau ym maes parcio. Penderfynwyd a phasiwyd drwy godi dwylo i dderbyn y pris o £305. Bydd y clerc yn cysylltu yn ôl gyda Mr Jackson gyda'r wybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r clerc Delyth Algieri, Cyng Nerys Dobson, Cyng John Owen a rhai a fydd yn cynorthwyo yn tacluso a thorri coed yn y maes parcio Gegin Wen.

TARMACIO FFYRDD YR ARDAL

Cadarnhaodd Cyng. Austin Roberts fod y gwaith o darmacio y ffordd yr Abbey heibio'r Felin yn cael ei tharmacio yn fuan.

CAE CETYN, CAE CHWARAE'R PENTREF

Cadarnhaodd Cyng. Arwel Lloyd Jones ei fod am osod arwyddion 'DIM CŴN' ar giât y cae chwarae Cae Cetyn, Llanddoged.

CAPEL SOAR, TYN Y BRYN, FFORDD TYRPEG UCHAF, LLANDDOGED

Cadarnhawyd fod y Cyngor Sir wedi cysylltu gyda perchennog Capel Soar ac ei fod wedi bod yn tacluso o gwmpas y safle.

LLINELLAU MELYN TU ALLAN I'R YSGOL GYNRADD LLANDDOGED

Rhannwyd y clerc daflen a dderbyniwyd gan _____ gyda gwybodaeth am leoliadau'r llinellau melyn a fydd yn cael eu paentio ar y ffordd wrth ymyl yr arhosfa bws yn Llanddoged.

MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN

Y Clerc wedi derbyn galwad ffôn gan Scottish Power yn gofyn caniatâd y Cyngor Cymuned i dorri rhai canghennau coed sydd yn tyfu dros y wifren trydan yn y maes parcio Cadair Ifan Goch. Pasiwyd i roi'r caniatâd iddynt barhau gyda'r gwaith.

DIFFIBILIWR Y PENTREF

Derbyniwyd neges gan y Pennaeth Ysgol Llanddoged fod y gwaith o ail osod y giât fechan wrth fynedfa'r ysgol wedi ei gwblhau yn dilyn y pryder fod dim posibil i'r cyhoedd gael mynedfa at diffibiliwr y pentref pan fydd yr ysgol ar gau.

CYNLLUNIO

1. Cais Rhif 0/46522-Adeiladu balcony – Sarn, Penrhiw, Llanddoged LL26 OBZ

Trafodwyd y cais cynllunio a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i adeiladu'r balcony.

2. Cais Rhif 0/46644 Newid defnydd garej i fragdy bach – Glasfryn, Ffordd Fron Francis, Llanddoged.

Trafodwyd y cais cynllunio a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i newid defnydd y garej i fragdy.

3.. Cais Rhif 0/46601 Estyniad a newidiadau arfaethedig 1 Efail Uchaf, Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged.

Trafodwyd y cais uchod a phasiwyd i godi sylw'r Cyngor fod gan y perchennog drws nesaf y tu canol y 'Rights Away' i gefn y tŷ drwy safle 1 Efail Uchaf.

CYNNAL A CHADW

1. Angen torri'r canghennau coed y gwrych/clawdd sydd rhwng Maes yr Awel Ffordd Trwyn Swch Llanddoged a Cae Cetyn Cae Chwarae Llanddoged.
2. Arwyddion groesffordd Ty Uchaf Maenan.
3. Torri gwair ar hyd ffordd Allt Goch, Llanddoged a Ffordd Troed y Rhiw i fyny hyd at Plas Cwta Maenan.